

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

RHEOLIADAU ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL (GWAITH GWELLA
DRAENIO TIR) 1999

GWAITH GWELLA MEWN PERTHYNAS Â
Chynllun Lliniaru Llifogydd Cwmaman

MAE CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF ("Y Cyngor") **YN HYSBYSU** fel a ganlyn yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Aseu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999:

1. Mae'r Cyngor yn cynllunio i ymgymryd â gwaith gwella draenio tir ar y cwrs dŵr er mwyn ei gwneud yn bosibl ailbroffilio'r ardal gan leihau'r dŵr wyneb sy'n llifo ar Nant Aman Fawr yng Nghwmaman pan fydd ar ei uchaf. Bydd hynny'n lleihau'r llif i lawr tuag at y sianel bresennol lle y mae risg uchel o lifogydd.
2. Dyw'r Cyngor ddim yn bwriadu paratoi datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith gwella arfaethedig.
3. Mae disgrifiad o leoliad, natur a maint y gwaith gwella yn Rhan I o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma.
4. Os yw rhywun yn dymuno gwneud sylwadau ysgrifenedig am effeithiau amgylcheddol tebygol y gwaith gwella arfaethedig, mae modd iddo wneud hynny drwy eu hanfon at Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Phrosiectau Strategol yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad yma.
5. Mae modd cael yr wybodaeth ychwanegol am y gwaith gwella yn Rhan II o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma gan Gyfarwyddwr Gwasanaeth y Priffyrdd, Trafnidiaeth a Phrosiectau Strategol yn Nhŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU yn ystod oriau swyddfa arferol.

ATODLEN

Rhan I – manylion am y gwaith gwella

Lleoliad gwaith gwella: Man Agored Cyhoeddus (tir hen lofa a thomen lo sydd wedi'i adfer) a chwrs dŵr naturiol i'r gorllewin o Gwmaman. OSGR 298913, 199520).


Natur a maint y gwaith gwella: Mae pob rhan o'r gwaith parhaol a'r gwaith dros dro'n gysylltiedig â'r canlynol:

- i. Lleihau dŵr wyneb gan leihau'r llif i lawr tuag at y sianel bresennol, pan fydd ar ei uchaf.
- ii. Meddalu'r fagl silt / pwll presennol er mwyn ysgogi gwellhad ecolegol.
- iii. Creu ysgwyddau gwlyptir o amgylch y pwll presennol.
- iv. Adfer pob ardal y mae'r gwaith uchod yn effeithio arno.

Rhan II – Gwybodaeth ychwanegol

Mae Llun Rhif P040/002/110 yn dangos lleoliad y gwaith arfaethedig.

Dyddiedig 10ed Mai 2017



Christopher B Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol